y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVIII RHIF 8 DYDD GWENER, CHWEFROR 19, 2010 Pris 40c

Ffactor X yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth

Braint i unrhyw eglwys yw cael gofal ac arweiniad bugail, ac, ar ei hyd, yr oedd llawenydd a diolchgarwch yn nodweddu awyrgylch cyfarfod sefydlu'r Parchg. Eifion Roberts yn weinidog i Gapel y Morfa, Aberystwyth ac Ebeneser, Penparcau, brynhawn Sadwrn, 30 Ionawr. Braf oedd gweld cynulleidfa luosog wedi dod at ei gilydd ac yn eu plith lawer o weinidogion ac aelodau eglwysi eraill o bob enwad yn y dref a'r cylch. Trawyd nodyn o groeso ac o lawenydd o'r cychwyn cyntaf gan y llywydd, Parchg. Wiliam T. E. Owen, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro a mynegwyd ein mawl yn fywiog yn yr emyn 'Ti ydyw Iôr gogoniant', gyda band yr ieuenctid yn cyfeilio. Darllenodd Eileen Sinnett Jones adnodau allan o Salm 145 a Rhys Jones ran o'r Llythyr at y Rhufeiniaid, pennod 12, ac offrymodd Menai Lloyd Williams weddi.

Y mae ennill un ofalaeth yn golled i un arall. Wrth gyflwyno ei weinidog a'i gyfaill mynegodd Parchg. D. J. Jones fel y mae gofalaeth Llanelli a Chydweli a Henaduriaeth Myrddin gyfan yn bwrw eu colled a chymeradwyodd ef y Parchg. Eifion Roberts i'n plith yn bersonoliaeth hynaws, yn bregethwr graenus, yn bwyllgorwr medrus ac yn un sy'n ymwybod â pharchusrwydd ei alwedigaeth. Y Llywydd a arweiniodd y Gwasanaeth Sefydlu ac offrymwyd gweddi dros y gweinidog a'r ofalaeth gan Parchg. Trefor Lewis, cyd-weinidog ag Eifion Roberts yn Henaduriaeth Myrddin. Wedi canu emyn o ddeisyfiad am fendith yr Ysbryd Glân, 'Air disglair Duw', cyn-weinidog yr ofalaeth, Parchg. Pryderi Llwyd Jones a draddododd y siars i'r eglwys. Cymerodd yn thema hanes galw'r disgyblion cyntaf yn efengyl Ioan, pennod 1, 'Beth yr ydych yn ei geisio?' … 'Dowch i weld'… 'Tyrd i weld', a phwysleisiodd mai cymdeithas fyw yw eglwys a'n swyddogaeth ni fel aelodau yw cynorthwyo ein gilydd ar ein pererindod i dyfu a datblygu yn y ffydd ac i fod yn gyfryngau i gyfeirio eraill at yr Un i'w ddilyn. Ymatebodd Parchg. Eifion Roberts gan ddiolch i ofalaeth Llanelli a Chydweli am yr holl gefnogaeth a chyfeillgarwch a dderbyniodd ganddynt yn ystod ei weinidogaeth (ac yr oedd yn hyfryd gweld cynifer o'r ofalaeth honno wedi dod i'r cyfarfod sefydlu). Wrth ddiolch i ofalaeth Aberystwyth am ei hymddiriedaeth apeliodd am ein gweddïau gan ein hatgoffa am yr angen i gefnogi'n gilydd.

Parchg Eifion Roberts gyda'r Parchgn. Wiliam Owen a Roger Ellis Humphreys, Llywydd ac Ysgrifennydd yr Henaduriaeth.

Dyna oedd thema croeso'r eglwys i'r gweinidog newydd a'i deulu trwy gyfrwng cyflwyniad ar ffurf y rhaglen deledu X Factor. Arwel Jones oedd y cyflwynydd a alwodd ato, o ganol y gynulleidfa, gynrychiolwyr o bob grŵp a chymdeithas yn yr eglwys i holi am brofiad Parchg. Eifion Roberts mewn amrywiol feysydd ac wedi clywed ymateb ei 'asiant' (Deian Creunant) i bleidleisio 'Ie' neu 'Na' dros ei wahodd i ymgymryd â'r gwaith. Fel y gellid disgwyl, yr oedd yr holl gynrychiolwyr yn dotio at yr atebion a gafwyd i'w hymholiadau (rhai ohonynt yn bur annisgwyl!) ac yr oedd y bleidlais o blaid yn unfrydol a brwd. Cafodd ysgrifennydd yr eglwys, Dai Alun Jones, gyfle i fynegi croeso cynnes a diffuant yr eglwys i Eifion ac Alwen Roberts, Dafydd ac Anna, ac i'w wahodd ef i ymuno â'r tim o gynrychiolwyr. Ni ellid peidio â sylweddoli didwylledd gwironeddol y croeso a'r gobeithion a oedd yn cael eu dangos trwy gyfrwng yr ysgafnder ac yr oedd yn briodol fod y cyflwyniad yn diweddu â chân newydd y plant (ac yn wir bawb yn y gynulleidfa) o groeso ac o weddi: 'Hwn yw y dyn i ni, y dyn i'n harwain ni, … Diolch a rown i Ti, am un i'n harwain ni, … Rho i'n gweinidog nerth wrth iddo'n harwain ni, … Ymlaen yr awn fel tim'. Diweddwyd y cyfarfod â'r emyn gorfoleddus, 'Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw' a thraddodwyd y Fendith gan Parchg Roger Ellis Humphreys, Ysgrifennydd yr Henaduriaeth.

Ar ôl y gwasanaeth yr oedd cyfle i bawb i gymdeithasu wrth y byrddau yng Nghanolfan y Morlan, yn glo ar brynhawn a oedd yn llonni'r galon ac yn fynegiant o'n gobeithion.

Y tim yn dweud 'IE'.

Y te croeso.